

**eich gwahoddiad i fuddsoddi
mewn ynni gwynt cymunedol**



Dogfen Cynnig Cyfranddaliadau

Cynnig Cyfranddaliadau yn agor:	31 Gorffennaf 2017
Swm a geisir:	£3,000,000
Lleiafswm buddsoddiad:	£50

CYNNWYS:

crynodeb	3
trosolwg busnes	4
gwybodaeth ariannol	8
risgiau	11
y bwrdd	12
y gymdeithas	13
cynnig cyfranddaliadau	14
ffurflen gais	17
geirfa	19

Awel Co-op yw enw masnachu Awel Limited, elusen gofrestredig dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif cofrestru 7204. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Cynnig Cyfranddaliadau hwn wedi ei pharatoi dan oruchwyliaeth cyfarwyddwyr Awel Co-op sy'n cymryd cyfrifoldeb am ei gynnwys. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl wybodaeth yn gywir.

Croeso gan y Cadeirydd

Fêch gwahoddir i fuddsoddi yn Awel Co-op a phrynu cyfranddaliadau mewn cwmni gwynt Cydweithredol Cymreig newydd. Bydd y cynllun hwn yn harneisio gwyntoedd De Cymru i gynhyrchu trydan yn defnyddio technoleg adnewyddadwy.

Awel Co-op yw eich cyfle chi i fod yn berchen ar gynhyrchu gwynt Cymreig a gweithredu ar newid hinsawdd. Rydym yn Gymdeithas Budd Cymunedol a bydd ein prosiect yn berchen ar ac yn rhedeg dau dyrbin gwynt 2.35 MW Enercon ar Fynydd y Gwrhyd, 20 milltir i'r gogledd o Abertawe. Byddwn yn defnyddio elw i gefnogi gwaith yr elusen leol, Awel Aman Tawe, i ddelio â thlodi tanwydd, datblygu ynni adnewyddadwy a rhedeg prosiect newid hinsawdd yn y gymuned.

Gallwch ddod yn Aelod o'r Cwmni Cydweithredol trwy danysgri-fio i'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn am gyn lleied â £50. Rhagwelir y byddwch yn derbyn elw o 5% y flwyddyn. Mae gennym ganiatâd cynllunio, cynnig cyswllt i'r grid wedi ei sicrhau, ac mae cais am Dariff Cyflenwi cyn achrediad wedi ei gyflwyno. Bwriedir cychwyn ar yr adeiladu ym Mawrth 2014, ac mae disgwyl y bydd y cynllun wedi ei gwblhau yn Rhagfyr 2016.

Amcangyfrifir y bydd y ddau dyrbin yn cynhyrchu 12,404 MWh o ynni glân yn flynyddol, gan gyflenwi cyfwerth â 2,500 o gartrefi'r flwyddyn. Mae'r tîm sy'n rhan o'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn eisoes wedi cyflenwi Cwmni Cydweithredol Egni Solar (www.egni.coop) sydd wedi gosod 119 kw o PV solar ar bum adeilad cymunedol.

Rydym yn dilyn ôl troed Cymdeithasau Gwynt eraill ledled y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Urras, Bro Ddyfi a Dingwall.

Gobeithiwn y byddwch yn penderfynu ymuno â ni ac yn dod yn Aelod o Awel Co-op.

Dan McCallum, Cadeirydd, Awel Co-op.



Crynodeb o'r Cynnig

Diben y Cynnig Cyfranddaliadau hwn yw codi arian tuag at osod dau dyrbin gwynt 2.35 MW Enercon ar fynydd y Gwrhyd, 20 milltir i'r gogledd o Abertawe yn Ne Cymru. Nod y fenter gydweithredol yw bod yn cynhyrchu trydan erbyn diwedd 2016.

Awel Co-op

Diben Awel Co-op yw cynhyrchu trydan carbon isel ac i fod o fudd i'r gymuned leol. Bydd y trydan a gynhyrchir yn bwydo'n uniongyrchol i'r grid lleol, gan gyflenwi cyfwerth a 2,500 o gartrefi'r flwyddyn. Mae'r Co-op yn disgwyl cynhyrchu refeniw o werthu trydan ac o'r Tariff Cyflenwi (FiT). Wedi ad-dalu benthyciadau a llog i aelodau, bydd y gwagedd blynyddol a ragwelir yn galluogi'r Gymdeithas i gefnogi'r elusen leol, Awel Aman Tawe, i ddarparu prosiectau cymunedol cynaliadwy yn yr ardal leol. Gallai gwerth y cyllid hwn fod yn fwy na £3 miliwn dros gyfnod oes y prosiect.

Y Cynnig

Mae'r Ddogfen Cynnig yn ceisio codi arian trwy gyhoeddi Cyfranddaliadau Cynnig am £1, sy'n daladwy'n llawn ar ymgeisio. Dylai'r rhai sy'n ymgeisio am Aelodaeth ystyried y Cyfranddaliadau hyn i fod yn fuddsoddiad hirdymor. Gallant danysgrifio ar gyfer isafswm o 50 ac uchafswm o 100,000 o Gyfranddaliadau am eu parwerth o £1 (£50-£100,000). Cyfrifir elw i Aelodau yn defnyddio'r tybiaethau a nodwyd yn y Ddogfen Cynnig hon. Mae'r elw a

ragwelir yn cyfateb i gyfradd adennill fewnol (IRR) o 5% dros y cyfnod o 20 mlynedd. Ni ellir cyfnewid cyfranddaliadau ar farchnad gyfnewid gydnabyddedig ac nid ydynt yn drosglwyddadwy.

Gall Aelodau wneud cais i dynnu Cyfranddaliadau yn ôl wedi diwedd y drydedd flwyddyn weithredol. Mae hyn yn ôl doethineb y Bwrdd. Mae'r Gymdeithas yn bwriadu ad-dalu cyfalaf cyfranddaliadau Aelodau dros y cyfnod o 20 mlynedd, yn amodol i berfformiad ariannol a'r cronfeydd sydd ar gael. Mae pob tanysgrifiwr, beth bynnag yw'r gwystl perthnasol, yn dod yn Aelod cyfartal o'r Gymdeithas yn awtomatig ar sail 'un Aelod un bleidlais'.

Risgiau

Ceir risg gydag unrhyw fuddsoddiad a gweithgareddau masnachol. Dylai aelodau posibl gymryd cyngor priodol a gwneud eu hasesiad risg eu hunain gan gofio agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol y Prosiect.

Pobl leol yn cefnogi cais cynllun Awel Aman Tawe.



Trosolwg Busnes

Awel Co-op & Awel Aman Tawe

Mae Awel yn Gymdeithas annibynnol a sefydlwyd gan Awel Aman Tawe* (AAT). Mae AAT yn elusen ynni cymunedol a sefydlwyd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar ben Cymoedd Abertawe ac Aman.

Mae AAT yn rhan o'r gymuned. Mae ei dîm bychan o staff a grŵp gweithgar o wirfoddolwyr yn byw yn yr ardal, ac maen ymroddedig i ddiogelu amgylchedd naturiol arbennig y gymdogaeth. Mae AAT yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ynni glân yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd trwy raglen gynaliadwy o wybodaeth, cyfathrebu ac ymgynghori. Wedi ei sefydlu yn 1998, mae wedi datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy (solar, biomas, hydro a gwynt ar raddfa fach) yn ogystal â rhaglenni arbed ynni; ac, yn fwy diweddar, wedi cynnwys miloedd o bobl mewn trafodaethau ar faterion newid hinsawdd trwy ddetholiad arloesol o weithgareddau celf. Mae ansawdd ei waith wedi ei gydnabod yn genedlaethol a rhyngwladol trwy nifer gynyddol o wobrau.


Y fferm wynt gymunedol hon yw prosiect arweiniol Awel Aman Tawe ac mae wedi cyflawni ymgynghoriad lleol ar raddfa fawr a sicrhau cefnogaeth y gymuned. Sefydlwyd Awel Co-op ym Medi 2015 i'r diben o ariannu, adeiladu a bod yn berchen ar y fferm wynt.

**Mae Awel yn cyfeirio ar y gwynt; Aman a Thawe yw'r ddau gwm lleol.*

Isod: Golygfa o'r ddau dyrbin fel y byddant i'w gweld o'r A4069 yn croesi'r Mynydd Du uwchben Brynaman.

Cynaliadwyedd

Mae fferm wynt gymunedol Awel Aman Tawe yn fenter gymdeithasol a fydd yn cefnogi adfywio lleol, yn delio â newid hinsawdd ac yn cynhyrchu ffinhonnell gynaliadwy o gyllid ar gyfer prosiectau yn y gymuned leol.



Cymdeithasau Ynni Adnewyddadwy

Y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy gyntaf yn y Deyrnas Unedig oedd Baywind yn Cumbria, a sefydlwyd yn 1997. Bellach mae yna Gymdeithasau Ynni Adnewyddadwy ledled y Deyrnas Unedig ac ar draws y technolegau. Mae gan Gymru a'r Alban nifer o gymdeithasau ynni adnewyddadwy yn cynnwys Coop Bro Ddyfi, Cymdeithas Budd Cymdeithasol Arberth a Dingwall Wind Co-op. Mae Cymdeithasau Budd Cymunedol fel Awel Co-op yn strwythurau democrataidd gyda'r gallu i godi arian yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Gyda system 'un Aelod un bleidlais' a bwrdd wedi ei ethol o'r Aelodaeth, maent yn cynnig ffordd deg a thryloyw i weithredu menter ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth y cyhoedd. Mae cymdeithasau wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Trosolwg Busnes

Y Safle

Bydd y ddau dyrbin wedi eu lleoli ar Fynydd y Gwrhyd sydd 20 milltir i'r Gogledd o Abertawe. Mae un tyrbîn ar dir comin ar llall ar dir fferm gyferbyn. Mae gennym opsiynau/prydlesau gyda'r ddau dirfeddiannwr. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer dau dyrbin gwynt, llwybr mynediad, is-orsaf ac adeiladau gwaith a chyswllt diogel i'r grid.

Yr Adnodd Gwynt


Cyflawnwyd Asesiad Adnodd Gwynt gan Ddulas Ltd yn seiliedig ar ddata safle dros ddwy flynedd o fast met 60m. Mae'r data hwn wedi ei gysylltu i ddata lleol y Swyddfa Dywydd. Mae Dulas wedi rhagweld cynhyrchiant cyfartalog 20 mlynedd o 12,404 MWh/y flwyddyn (P50) yn seiliedig ar y Gromlin Pŵer gwarantiedig ar gyfer y tyrbîn dethol. Mae'r ffigwr P50 hwn yn rhagolwg allbwn ynni sy'n ystyried colledion yn y system. Tyrbinau Enercon E82 2.35MW yw'r tyrbinau dewisol ar gyfer y safle hwn ac rydym wedi llofnodi Cytundeb Cyflenwi Tyrbinau gydag Enercon. Mae gan Enercon enw da iawn o ran cynllun tyrbinau ac mae wedi dangos cryn ymroddiad i'r sector ynni cymunedol yn y Deyrnas Unedig, gan gyflenwi nifer o'r tyrbinau sy'n weithredol.

Tir Comin

Cydsyniodd Llywodraeth Cymru i geisiadau Adran 194 a 147 ym Mawrth 2013 ar gyfer y tyrbîn gwynt a thrac mynediad ar y comin.

Geo-dechnegol

Cwblhaodd Natural Power Ymchwiliad Safle yng Ngorffennaf 2014 oedd yn cynnwys dyfrdyllau 50m yn lleoliadau'r tyrbinau



ar is-orsaf, a phyllu arbrofol ar draws y safle cyfan.. Ni nodwyd unrhyw amodau problematig ac rydym yn disgwyl i'r gwaith adeiladu fod yn arferol.

Contract Adeiladu

Yn dilyn proses tendro cystadleuol, mae contractwr peirianneg sifil profiadol, Raymond Brown Construction, wedi ei benodi i adeiladu'r cynllun. Maen nhw'n gwmni lleol ac wedi adeiladu nifer o ffermydd gwynt ar draws y Deyrnas Unedig. Mae ganddynt berthynas ragorol gydag Enercon, wedi adeiladu 50% o'u tyrbinau yn y Deyrnas Unedig.

Trosolwg Busnes

Gwerthiant Trydan

Bydd y trydan a gynhrychir gan y tyrbinau yn cael ei allforio i'r grid lleol trwy gysylltiad 33 kW, 300m o'r safle. Mae'r cyswllt grid wedi ei sicrhau trwy flaendal ar gyfer y gallu 4.7 MW llawn. Bydd Awel Co-op yn ceisio uchafu incwm trwy gasglu amcanbrisiau gan brif brynwyr ynni adnewyddadwy ar gyfer pwr casu pŵer. Yn ogystal, bydd Awel Co-op yn derbyn y Tariff Cyflenwi (FiT). Ymgeisiwyd am Achrediad Rhagarweiniol ar gyfer y FiT ym Medi 2015 a fydd, os yn llwyddiannus, yn cadw'r gyfradd FiT ar gyfer y prosiect hwn ar 2.8c/kWh am 18 mis; gyda'r amod bod yn rhaid i'r tyrbinau fod yn cynhyrchu cyn diwedd Mawrth 2017.

Strwythur Corfforaethol

Mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu gyda mewnbwn ac amser sylweddol gan Awel Aman Tawe (AAT), elusen gofrestredig. Er mwyn adeiladu'r fferm wynt, sefydlodd AAT gangen fasnachu, neu Gyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV), o'r enw Awel y Gwrhyd. Bydd y cwmni hwn yn gweithredu i gynnal y tyrbinau.

Er y bydd y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer adeiladu'r fferm wynt yn cael ei sicrhau gan fenthycwyr masnachol, mae AAT yn awyddus i gynnig cyfran arwyddocaol o'r cyllid i fuddsoddwyr cymunedol posibl. Felly, sefydlwyd Awel Co-op, Cymdeithas Fudd Gymunedol newydd, i warchod perchnogaeth gymunedol ddemocrataidd ac i helpu ariannu'r prosiect.




Amserlen Y Prosiect

2016

- ION
 - CHWE
 - MAW
 - EBR
 - MAI
 - MEH
 - GOR
 - AWST
 - MEDI
 - HYD
 - TACH
 - RHAG
- Thalu blaendal y tyrbinau
 - Gwaith tir yn cychwyn yn cynnwys traciau mynediad, is-orsaf
 - Sylfaeni tyrbinau
 - Gwaith grid
 - Danfon tyrbinau
 - Codi tyrbinau
 - Comisiynu tyrbinau

Lluniau: chwith uchaf: Dan McCallum yn mynychu Uwch-gynhadledd Mentrau Cymdeithasol yn Downing Street; chwith isaf: Ymweliad i Garro yn rhan o ymgynghoriad cymunedol AAT ynghylch y fferm wynt.

Trosolwg Busnes



Strwythur Corfforaethol

- ▶ **Awel Aman Tawe** - Elusen Gofrestredig i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a delio â materion yn ymwneud â newid hinsawdd.
- ▶ **Awel y Gwrhyd** - cangen fasnachu / Cyfrwng at Ddibenion Arbennig a sefydlwyd i weithredu'r fferm wynt. Bydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu gyda benthyciadau gan fenthycwyr masnachol a gan Fuddsoddwyr Cyfranddaliadau trwy Awel Co-op.
- ▶ **Awel Co-op** - Cymdeithas Budd Cymunedol dan berchnogaeth llwyr y fferm wynt ac yn codi arian gan Fuddsoddwyr Cyfranddaliadau.

Awel Co-op fydd perchnogion llwyr yr SPV, Awel y Gwrhyd, ynghyd â'i holl asedau ac unrhyw atebolrwydd, yn cynnwys prydlesau a pherchnogaeth o'r tyrbinau. Bydd yr holl elw o'r fferm wynt, wedi talu credydwyr a thalu llog i Aelodau, yn cael ei roi yn rhodd i AAT i'w ddefnyddio i gyflawni prosiectau cymunedol cynaliadwy yn yr ardal, gan daclo tloedi tanwydd, datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy a rhedeg prosiectau ymwybyddiaeth newid hinsawdd. Rhagwelir y bydd gwerth y cyllid cymunedol hwn fod yn fwy na £3 miliwn dros gyfnod oes y prosiect.

Ceir diagram i arddangos sut fydd y strwythur hwn yn gweithio'n ymarferol uchod.

Cynghorwyr

Mae'r cynghorwyr allanol canlynol wedi eu defnyddio ar gyfer y prosiect hyd yn hyn. Hoffai Cyfarwyddwyr Awel egluro nad yw'r Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau hon wedi ei harchwilio gan ein cynghorwyr na a bod cywirdeb ei chynnwys yn gyfri-foldeb llwyr i'r Cyfarwyddwyr.

- ▶ **Sifil:** QuadConsult www.quadconsult.co.uk
- ▶ **Adolygiad Technegol:** Wind Prospect www.windprospect.com
- ▶ **Cynllunio:** Dulas www.dulas.org.uk & Adas www.adas.uk
- ▶ **Cyfreithiol:** Burges Salmon LLP www.burges-salmon.com
- ▶ **Cyngor cydweithredol:** Sharenergy www.sharenergy.coop

Prosiect addysg AAT am newid hinsawdd.



Gwybodaeth Ariannol


Cost y Prosiect

Rhagwelir mai cyfanswm y gost a ragwelir ar gyfer y Prosiect yn cynnwys costau'r tyrbinau, gosod a rheoli prosiect fydd £8,215,000.

Mae Rhagolygon Ariannol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi eu crynhoi yma. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gontractau presennol ac amcangyfrifon a dderbyniwyd gan y Gymdeithas. Mae'r rhagolygon ariannol yn dechrau ar bwynt pan fydd incwm trydan a FiT yn cychwyn. Mae'r model cyllid yn cynnwys dychwelyd cyfalaf Aelodau dros gyfnod o 20 mlynedd. Ar ddiwedd ei gyfnod gall y Gymdeithas ddewis gosod tyrbinau newydd neu beidio, ac i barhau gyda'r busnes neu ei ddirwyn i ben, yn ôl busnes y Gymdeithas ar y pryd. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar safle diofyn ble mae'r tyrbina yn cael ei ddatgomiynu ar ddiwedd 20 mlynedd o weithredu.

Mae'r pecyn cyllid cyfalaf arfaethedig fel a ganlyn:


- ▶ Mae benthyciad o £1,200,000 wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru dros dymor 15 mlynedd @ 7.5% p.a.
- ▶ Rydym wedi bod yn derbyn £3,550,000 benthyciad pontio ymhellach gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael refincanedd gan Triodos Bank.
- ▶ Cynnig benthyciad ddangosol ar gyfer £ 5,250,000 ar dymor 15 mlynedd wedi ei dderbyn gan Triodos Bank.
- ▶ Rydym eisoes wedi codi £1,340,000 yn ein Cynnig Cyfranddaliadau. Mae hyn yn cynnwys £1,196,000 a godwyd @ 7% a £144,000 a godwyd @ 5%. Rydym yn anelu at gyrraedd £1,965,000 erbyn 25 Rhagfyr - os na fyddwn yn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adael mwy o'i gyllid yn y prosiect.
- ▶ Rydym yn debygol o barhau â'n Cynnig Cyfranddaliadau neu geisio dyled-ddeddfwriaeth ar gyfradd is, er mwyn ailgyllido y £1m sy'n weddill o'r benthyciad Llywodraeth



Pecyn Cyllid Cyfalaf		
Cyllidwr	Swm	%
Triodos	5,250,000	64
Llywodraeth Cymru	1,000,000	12
Cyhoeddi Cyfranddaliadau Cymunedol	1,965,000	24
Cyfanswm	8,215,000	100

Cymru. Os byddwn yn parhau â'r Cynnig Rhannu, efallai y Cyfarwyddwyr yn penderfynu gostwng y gyfradd llog o 5% i aelodau newydd gan y bydd llai o berygl yn y prosiect unwaith y bydd y fferm wynt yn cael ei adeiladu yn llawn.

- ▶ Mae Awel Co-op ac Awel y Gwrhyd yn fusnesau cyfreithiol unigol. Bydd cyllid cyfranddaliadau a gesglir gan Awel Co-op yn cael ei ddarparu i Awel y Gwrhyd dan amodau a fydd yn caniatáu i Awel Co-op dalu llog ar y cyfranddaliadau, cronni cronfa gyfalaf a chyflawni gweithgareddau gweinyddol sylfaenol.



Costau'r Prosiect		
Eitem	Swm	%
Turbinau	4,452,920	54
Gwaith Adeiladu	1,723,958	21
Cyswllt i'r Grid	264,000	3
Ffioedd/cronfeydd banc	471,400	6
Ffioedd Proffesiynol a Chynnig Cyfranddaliadau	280,000	3
Gosod a Rheoli Prosiect	257,470	3
Ad-dalu benthyciadau datblygu	521,896	6
Wrth gefn	243,356	3
Cyfanswm	8,215,000	100

Gwybodaeth Ariannol

Rhagolygon Ariannol

Maer tabl isod yn crynhoi'r dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer amrywiol flynyddoedd ariannol dros gyfnod oes y tyrbinau sy'n gweithredu dan Awel y Gwrhyd.

Financial Projections								
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Elw a cholled								
	yr 1	yr 2	yr 3	y 4	yr 5	yr 6-10	yr 11-20	Total
Incwm	956	980	1,005	1,030	1,056	5,687	13,715	24,430
Gwariant	256	262	269	275	282	1,850	5,334	8,527
Surplus	701	718	736	755	774	3,837	8,381	15,902
Ilai Dibrisiant								
	361	361	361	361	361	1,805	3,611	7,222
Ilai llog holl fenthyciadau	275	265	248	231	212	740	227	2,197
Ilai llog cyfran. @7%	42	63	84	84	82	385	737	1,477
Ilai llog cyfran @5%	19	29	38	38	38	177	270	609
+ llog ar arian parod	0	4	4	4	4	18	107	141
Surplus	4	5	9	45	84	749	3,642	4,538
Llif arian								
Surplus + Dibrisiant	365	366	370	406	445	2,554	7,253	11,759
Ilai holl fenthyciadau cyfalaf	249	341	357	375	393	2,434	1,850	6,000
Ilai cyfalaf ad-dalu cyfran. @7%	0	0	0	24	24	192	958	1,197
Ilai cyfalaf ad-dalu cyfran. @5%	0	0	0	15	15	123	614	768
Arian parod agoriadol	250	366	391	403	395	408	213	250
Arian parod terfynol	366	391	403	395	408	213	4,044	4,044

- ▶ Mae'r rhagolygon yn y Ddogfen Gynnig hon yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd gan y Bwrdd.
- ▶ Rhagwelir y bydd chwyddiant (RPI) yn 2% y flwyddyn dros y cyfnod 20 mlynedd.
- ▶ Rhagwelir y bydd gwerth trydan a werthir yn cynyddu yn unol â'r RPI.
- ▶ Mae incwm yn seiliedig ar werth cyfunol y Tariff Cyflenwi, gwerthiant trydan a buddion eraill, sef 7.71c/kWh (2.80c/kWh FiT a 4.91c/kWh cyfradd allforio), yn adlewyrchu'r

FiT perthnasol a phrisiau cyfredol trydan. Gallai ein cyfradd allforio fod yn uwch trwy Gytundeb Pwrcasu Pŵer, ond rydym wedi caniatáu ar gyfer y gyfradd allforio fwy ceidwadol a ganiateir gan Ofgem.

- ▶ Mae dibrisiant offer yn llinell syth dros y cyfnod 20 mlynedd. Yma mae cyfalaf wedi ei fodelu fel cael ei ddychwelyd i Aelodau'n flynyddol wedi Blwyddyn 3 yn amodol i gynnal cronfa wrth gefn yn y Gymdeithas.
- ▶ Rhagwelir y bydd cyfraddau busnes yn £46,250 y flwyddyn

Financial Projections

- ▶ Rhagwelir y bydd costau yswiriant yn £11,555 y flwyddyn – mae hyn yn seiliedig ar ddyfynbris gan frocer dibynadwy.
- ▶ Mae costau gweinyddol y Gymdeithas wedi eu gosod ar £5,000 y flwyddyn. Mae hyn yn bris a ddyfynnwyd gan Awel Aman Tawe ar gyfer eu gwasanaeth sy'n cwmpasu cadw cyfrifon, cynhyrchu cyfrifon blynyddol, cynnal y gronfa ddata o aelodau, cefnogaeth ffôn, e-bost a phost i Aelodau, paratoi papurau'r Cyfarfod Blynyddol a ffurflenni blynyddol, FCA a ffioedd rheoleiddiol eraill.
- ▶ Rhagwelir y bydd llog banc ar adneuron y Gymdeithas yn 1.0% y flwyddyn (mae'r rhan fwyaf o adneuron yn cael eu cadw yn y tymor hir).
- ▶ Mae'r holl elw yn cael ei roi yn rhodd i'r elusen, Awel Aman Tawe, felly nid yw'r rhagolygon yn rhagweld atebolrwydd Treth Corfforaeth. Sylwer bod Aelodau yn debygol o fod angen talu Treth Incwm ar eu helw o'r buddsoddiad.
- ▶ Disgwylir i wariant arian misol arferol fod yn isel a bydd y cynhyrchiant ac incwm FiT yn mwy na talu am hyn. Mae'r Rhagolygon yn rhagweld y bydd y Gymdeithas ar ei ennill yn ariannol pob blwyddyn o gychwyn y gweithrediad, er y gellir ceisio sicrhau cyfleuster gorddrafft i gynorthwyo llif arian ym mlynnyddoedd cynnar y prosiect.
- ▶ Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar gyfnod FiT 20 mlynedd.
- ▶ Mae'r IRR a ddangosir ar gyfer cyfnod o 20 mlynedd; bydd y swm sy'n daladwy pob blwyddyn mewn llog yn amrywio yn ôl perfformiad y tyrbinau a gwariant arall ac mae llif arian y prosiect wedi ei fodelu ar sail hyn.
- ▶ Bydd Awel Co-op yn atebol yr holl gostau gweithredu parhaus sy'n gysylltiedig gyda'r gosodiad a bydd yn trafod gwerthiant trydan a budd o'r Tariff Cyflenwi ac unrhyw ysgogiadau eraill cyfredol neu yn y dyfodol.

Example of a Member's cashflow: £1000 in shares at 5%

	£	£	£	£	£	£	£	£
	yr 1	yr 2	yr 3	yr 4	yr 5	yrs 6-10	yrs 11-20	yrs 1-20
Interest payment	25	38	50	50	49	230	352	794
Capital repayment	0	0	0	20	20	160	800	1000
Total	25	38	50	70	69	390	1152	
Cumulative	25	63	113	183	252	642	1794	1794

Mae'r tabl uchod yn dangos enillion a ragwelir i aelod sydd wedi buddsoddi £1,000. Ein nod yw gwneud taliadau llog cyfran o flwyddyn 1, gan adeiladu i fyny dros gyfnod o amser. Mae chyfradd adennill fewnol (IRR) yw 5%. Os oes gennym y flwyddyn yn llai gwyntog, efallai y byddwch yn derbyn llai o ddiddordeb nag a ragwelir. Byddem yn anelu at gynyddu taliadau mewn blynyddoedd gwyntog i ddod â'r IRR yn ôl i 5% dros yr 20 mlynedd y prosiect. Mae ein gyfrannau eu withdrawable - sy'n golygu na ellir eu masnachu, ond gallwch wneud cais i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg os oes angen. Rydym wedi gwneud darpariaeth sylweddol i dalu am hyn, ond y gallu hwn ni ellir gwarantu i dynnu'n ôl.

Disgyblion yn monitro faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd



Risgiau

Mae'n bwysig ystyried y risgiau'n ofalus cyn i chi bend-erfynu cyflwyno arian. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr wybodaeth yn y ddogfen hon, dylech holi cynghorydd ariannol annibynnol a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu gael cyngor gan gyfreithiwr neu gyfrifydd.

Y risgiau allweddol a nodwyd gan y Bwrdd yw:

Risg Buddsoddi Cyffredinol

- ▶ Mae gwerth Cyfranddaliadau yn gallu amrywio yn ôl gwerth y busnes sylfaenol.
- ▶ Ni fydd Cyfranddaliadau Cynnig yn drosglwyddadwy na'n cael eu masnachu ar farchnad gyfnewid gydnabyddedig.
- ▶ Bydd aelodau sydd eisiau tynnu eu cyfalaf Cyfranddaliadau allan yn gallu gwneud cais i'r Bwrdd i'r diben hwn wedi'r drydedd flwyddyn weithredol. Mae tynnu cyfalaf allan yn ôl doethineb y Bwrdd.

Risgiau Buddsoddi'r Diwydiant Ynni Adnewyddadwy

- ▶ Gallai polis i'r llywodraeth tuag at ynni adnewyddadwy newid. Fodd bynnag, try gydol gweithrediad y FiT a chynlluniau tebyg blaenorol, mae llywodraethau olynol wedi cadw at eu hymroddiad i gynnal tariffau prosiect ar y lefelau y sicrhodd y prosiect wrth gofrestru. Mae FiT hefyd yn indecs-gyswllt i RPI.
- ▶ Gall costau gweithredol godi'n gynt nag y rhagwelir yn ystod oes y Prosiect. Lliniaru: Mae'r Gymdeithas wedi cytuno ar

contract 15 mlynedd ar gyfer gweithredu, cynnal a gweinyddu gydag Enercon i leihau'r risg cyn belled ag sy'n ymarferol.

Risg penodol i'r Gymdeithas

- ▶ Cynigir cyllid dyled i ariannu cyfran fawr o'r costau cyfalaf. Bydd gan y credydwyr hyn hawl i gael taliad llawn cyn unrhyw un arall gyda budd ariannol yn y prosiect, yn cynnwys Aelodau. Lliniaru: Mae Awel Co-op yn gweithio gyda'r benthydwyr i sicrhau y gellir talu'r dyledion hyn ac y bydd digon dros ben i dalu'r holl ymrwymadau eraill.
- ▶ Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar yr elw gwynt a ragwelir. Pe byddai'r cynnyrch gwynt yn is ar gyfartaledd dros gyfnod y prosiect, yna byddai elw'r Aelodau'n lleihau.
- ▶ Byddai methiant yr offer oherwydd amgylchiadau eithafol yn cynyddu costau cynnal a chadw ac yn effeithio ar incwm y Gymdeithas. Lliniaru: bydd gwarantau ac yswiriant ar gael i dalu am ddiffygion mecanyddol a cholli incwm ar gyfer cyfnodau cysylltiedig o amhariad i'r busnes. Bydd difrod damweiniol a maleisus hefyd wedi ei gynnwys dan yr un yswiriant, ac fe ddarperir yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
- ▶ Gallai unrhyw newidiadau i'r FiT sy'n digwydd cyn comisiynu'r tyrbinau arwain at newid i ragolygon, neu yn yr achos gwaethaf, yn achosi i'r prosiect beidio bod yn ddichonadwy. Lliniaru: mae'r Gymdeithas wedi ceisio Achrediad Rhagarweiniol i sicrhau bod y lefel FiT a fodelwyd ar gael (gan ganiatáu 3 mis ar gyfer oedi o ran adeiladu).



“Nid yn unig fydd y prosiect yma yn helpu i greu Cymru rhag carbon, ond mae'n ffordd ffantastig i elwa incwm amdanoch chi'ch hunan ac i gefnogi cymunedau sy'n angen adfywiad.”

Paul Allen, CAT



“Bydd y tyrbinau Awel yn ddarparu ynni adnewyddadwy rhad am genedlaethau i ddod. Ymhell ar ôl i'r costau adeiladu cael eu talu bydd y tyrbinau yn dal i droi, dal yn gynhyrchu trydan ar bron dim gost: heb unrhyw mewnfuriad o nwy, heb wraniwm yn cael ei gloddio, heb gwastraff niwclear i gofalu amdano am filoedd o flynyddoedd.”

Chris Blake - Ynni Cymunedol Cymru

“Mae hon yn ffordd wych, cydweithredol o wneud effaith ar newid yn yr hinsawdd .. ac mae'n newyddion gwych i swyddi yng Nghymru hefyd.”

Aelod o'r Cynulliad, Jenny Rathbone.



Y Bwrdd

Mae'r bwrdd Cyfarwyddwyr presennol yn drawsnewidiol ac fe'i sefydlwyd i ddibenion sefydlu Menter Gydweithredol, rhedeg y Cynnig Cyfranddaliadau a rheoli'r prosiect. Cynhelir etholiadau Bwrdd o'r Aelodaeth newydd yn y Cyfarfod Cyffredinol cyntaf.



Dan McCallum

Mae Dan yn un o sylfaenwyr Awel Aman Tawe, elusen ynni cymunedol, ac mae wedi bod yn rheolwr ers 2000. Mae Dan wedi bod yn rhan o bob agwedd o'r prosiect o'r cychwyn ac wedi rhannu ei brofiad gydag ystod o brosiectau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n gweithio gyda DECC yn rhan o'r Grŵp Contract a helpodd ddatblygu Strategaeth Ynni Cymunedol gyntaf y Deyrnas Unedig. Mae ganddo radd BA 2:1 mewn hanes modern o Brifysgol Rhydychen. Ymysg ei brofiad gwaith mae dwy flynedd fel Cydlynnydd Rhaglen ar gyfer Oxfam yn Kurdistan Iracaidd, a dwy flynedd fel Rheolwr Rhaglen y Dwyrain Canol ac Affrica ar gyfer y Grŵp Hawliau Lleiafrifol.

Mary Ann Brocklesby

Mae Mary Ann yn arbenigwr datblygu cymdeithasol gydag 20 mlynedd o brofiad ar gyngor polisi, rheoli rhaglenni ac ymchwil yn Asia, Affrica, Ewrop a'r Deyrnas Unedig. Mae wedi bod yn Gadeirydd Awel Aman Tawe am saith mlynedd ac wedi datblygu arbenigedd mewn materion ynni adnewyddadwy dros y cyfnod hwn. Mae'n cefnogi nifer o brosiectau ynni cymunedol. Mae wedi byw a gweithio'n flaenorol yng Nghameroon ac Indonesia am dair blynedd a phum mlynedd yn y drefn honno. Yng Nghameroon, roedd Mary Ann yn gweithio ar ddatblygu gallu datblygiad cymunedol, gan gynnwys sgiliau rheoli gwrthdaro mewn sefydliadau llywodraeth a chymdeithas sifil yn ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth ac yn Indonesia ar brif ffrydio rhyw a meithrin gallu ar gyfer NGOs.



Dr. Suzanne Bevan

Swyddog ymchwil, Ysgol yr Amgylchedd a Chymdeithas (SOTEAS), Prifysgol Abertawe. Mae'n arbenigwr ar newid hinsawdd ac wedi gweithio'n flaenorol i'r Swyddfa Dywydd. Ar hyn o bryd mae'n cyflawni contract 3 blynedd ar brosiect a ariennir gan Leverhulme yn ymchwilio i sefydlogrwydd hirdymor dalen iâr Ynys Werdd. Mae Suzanne wedi buddsoddi yn Egni Co-op.

Carl Richards

Mae Carl wedi ei gyflogi gan Awel Aman Tawe ers 2000. Cafodd ei hyfforddi'n wreiddiol i gynorthwyo gydag ymgynghori cymunedol ar y fferm wynt. Mae Carl wedi rhoi cryn dipyn o'i amser yn wirfoddol i Awel Aman Tawe. Yn ddiweddar, mae wedi bod yn gweithredu fel Swyddog Cyllid. Mae ganddo Diploma Lefel 3 gan y Sefydliad y Cyfrifyddion Ardystiedig. Mae Carl yn byw yn lleol ym mhentref Brynaman, yn hanesydd brwd ac yn siaradwr Cymraeg. Mae ganddo radd mewn Cemeg. Mae Carl yn aelod a chyfarwyddwr o Egni.



Brian Jones

Bu Brian yn dysgu yng Ngholeg Nedd Port Talbot ers iddo symud tan iddo ymddeol yn Awst 2014. Roedd hefyd yn Gyngorydd Cymuned am 8 mlynedd, ac yn llywodraethar ysgol am 5 mlynedd. Yn ei amser sbâr, mae'n mwynhau darllen (yn Gymraeg a Saesneg), ac yn chwarae'r clarinet gyda Cherddorfa Gymunedol Abertawe. Aeth i Brifysgol Caerfaddon i astudio Mathemateg, ac ar gyfer ei flwyddyn lleoliad fe weithiodd yn y Sefydliad Ymchwil Ynni Atomig yn Harwell. Mae wedi gweithio ar ymgyrchoedd gwrth arfau a phŵer niwclear ers hynny, a gyda rhai ymgyrchoedd blaengar eraill. Mae wedi buddsoddi yn Egni Co-op.

Y Gymdeithas

Cyfranddaliadau presennol ac arfaethedig Cyfarwyddwyr

Cyfanswm y cyfranddaliadau arfaethedig y mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu eu prynu trwy'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yw £9,000.

Datgeliad

Nid yw'r un o gyfarwyddwyr Awel Co-op, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, wedi derbyn unrhyw gollfarn (am drosedd dwyllodrus na fel arall), na fod yn gysylltiedig ag unrhyw fethdaliadau, derbynyddiad neu ddatodiad, nac wedi derbyn unrhyw gerydd na chosb cyhoeddus gan awdurdod statudol neu reoleiddiol neu gorff proffesiynol penodedig, nac wedi ei anghymhwysu o unrhyw swyddogaeth gan unrhyw lys.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae dau o'r cyfarwyddwyr, Dan McCallum a Carl Richards wedi eu cyflogi gan yr elusen Awel Aman Tawe. Mae Mary Ann Brocklesby, Brian Jones a Suzanne Bevan yn Ymddiriedolwyr gwirfoddol i Awel Aman Tawe. Mae AAT yn elusen a fydd yn elwa o'r prosiect ar ffurf taliadau trwy'r gronfa gymunedol dros 20 mlynedd y prosiect. Mae AAT hefyd wedi ei gcontractio i ddarparu gwasanaethau gweinyddol ar gyfer Awel Co-op am y pum mlynedd gyntaf a bydd yn cael ei dalu ar gyfradd safonol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Cydnabyddiaeth

Nid yw Cyfarwyddwyr Awel Co-op wedi derbyn unrhyw gyd-nabyddiaeth. Pan fydd y fferm wynt yn cynhyrchu trydan, bydd gan bob Cyfarwyddwr hawl i hawlio ffioedd ac/neu gostau nad ydynt yn fwy na £50 y flwyddyn yn ogystal â chostau teithio.. Bydd ceisiau cyfranddaliadau Cyfarwyddwyr yn cael eu darparu'n llawn, ond nid oes unrhyw gynlluniau pensiwn, cynlluniau opsiwn cyfranddaliadau, ac oni bai am ad-dalu costau, nid oes unrhyw fuddion eraill ar gyfer Cyfarwyddwyr.

Arferion y Bwrdd

Mae Cyfarwyddwyr yn gwasanaethu yn unol â'r Rheolau. Nid oes contractau gwasanaeth ar eu cyfer. Ni fydd gan Awel Co-op unrhyw gyflogion ac nid yw'r busnes yn ddibynnol ar unigolion allweddol. Rheolir gweithrediadau o ddydd i ddydd gan y Fenter Gydweithredol dan oruchwyliaeth y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn atebol yn y pen draw i'r Aelodau.

Mae Awel Co-op yn cydymffurfio â gofynion statudol a rhai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan na fydd y cyfranddaliadau wedi eu rhestr, nid oes rhaid i Awel Co-op gydymffurfio gyda'r Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol.

Cyfrifon

Cafodd Awel Co-op ei ymgorffori ym Medi 2015 ac mae diwedd ei flwyddyn ariannol ar 31 Rhagfyr. Ar ddiwedd y cyhoeddiad cyfranddaliadau i ddod, ar wahân i gyhoeddi 5

cyfranddaliad llawn werth, ni chyflawnwyd unrhyw drafodion pellach.

Polisi Difidendau

Bydd Cyfranddaliadau Aelodau yn denu taliad llog blynyddol mewn ôl-ddyledion. Gall cyfraddau llog amrywio yn ôl perfformiad ariannol.

Gweithrediadau Cyfreithiol

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau llywodraethol, cyfreithiol na chyflafareddu yn ymwneud â'r Prosiect nac Awel Co-op ac nid oes yr un i ddod nac wedi ei fygwth a allai gael effaith arwyddocaol ar safle ariannol neu allu Awel Co-op i wneud elw.

Rheolau'r Fenter Gydweithredol

Mae Cymdeithasau Cofrestredig, megis Awel Co-op, wedi eu llywodraethu gan Reolau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (nid trwy Femorandwm ac Erthyglau Cwmni). Mae copi o'r Rheolau ar gael ar wefan Awel Co-op www.awel.coop (neu i gael copiau caled gweler y manylion cyswllt ar gefn y Cynnig hwn).

Further information

Mae dogfennau eraill a grybwyllir yn y Cynnig hwn ar gael o wefan Awel, neu trwy gysylltu â ni dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. Gweler y manylion cyswllt ar dudalen gefn y Cynnig hwn.

Mae gwybodaeth gyffredinol gan drydydd partion yn y Ddogfen Gynnig hon wedi ei hatgynhyrchu'n gywir. Cyn belled ag y gwyr y Cyfarwyddwyr, ac y gallant gasglu o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan y trydydd parti hwnnw, nid yw unrhyw ffeithiau wedi eu hepgor a allai wneud yr wybodaeth a atgynhyrchwyd yn anghywir neu'n gamarweiniol.

Peter Hain yn cwrdd â swyddog addysg AAT Elin Paul



Cynnig Cyfranddaliadau

Cynnig Cyfranddaliadau

Mae'r cynnig llawn o 8 Mai 2016 hyd at hanner dydd ar 31 Gorffennaf 2017

Rhesymau dros y cynnig a'r defnydd o elw

Fe wneir y cynnig hwn er mwyn sicrhau:

- ▶ Y gall Awel Co-op a'i Aelodau gynhyrchu ynni adnewyddadwy a dod â buddion i'r gymuned leol, yn ariannol a thrwy gynhyrchu trydan carbon isel;
- ▶ Y gall y Gymdeithas godi'r cronfeydd gofynnol i gwblhau caffael ac adeiladu'r Gosodiad;
- ▶ Y gall Aelodau elwa o'r ffaith bod Awel Co-op yn berchen ar y Gosodiad Gwynt;
- ▶ Bod Aelodau yn dod o'r gymuned leol i'r fath raddau ag sy'n bosibl.

Cyfranddaliadau

Cynigir 1,000,000 o Gyfranddaliadau cyffredin o £1 ar bris llawn ac maent yn daladwy yn llawn ar dderbyn cais ar Amodau a Thelerau'r Ddogfen Cynnig hon. Mae'r Cyfranddaliadau, na fyddant yn cael eu masnachu ar unrhyw farchnad gyfnewid, wedi eu creu dan y Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrifau cyfranddaliadau ac fe gofnodir eu manylion a daliadau ar gofrestr cyfranddaliadau i'w cadw gan Awel Aman Tawe, ar ran y Gymdeithas, yn 76-78 Heol Gwilym, Cwmllynfell, Abertawe SA9 2GN, neu unrhyw gyfeiriad busnes olynol. Mae pob unigolyn neu sefydliad sy'n derbyn Cyfranddaliadau gan Awel Co-op yn dod yn Aelod o'r Gymdeithas, gyda hawliau aelodaeth wedi eu diffinio yn y Rheolau. Y prif hawliau yw:

- ▶ Un bleidlais i bob deiliad ar benderfyniadau Aelodau, yn cynnwys parthed penodi Cyfarwyddwyr.
- ▶ Yr hawl i dderbyn taliad llog blynyddol cymesur fel elw ar fuddsoddiad mewn cyfranddaliadau (yn amodol i'r gwarged sydd ar gael).
- ▶ Yr hawl i gael y buddsoddiad gwreiddiol yn ôl ar ddiwedd oes y Gosodiad (yn amodol i asedau gwared sydd ar gael ac unrhyw fusnes newydd y Gymdeithas).
- ▶ Fel Aelod, cymhwyster i gael ei ethol i'r Bwrdd.

Taliadau llog

Telir llog ar falans cyfrif pob Aelod ar gyfraddau sy'n adlewyrchu'r perfformiad ariannol blynyddol. Bydd dyddiad taliadau llog Aelodau yn cael ei gyhoeddi pob blwyddyn. Mae taliadau llog wedi eu cyfyngu i'r gyfradd honno sydd ym marn y Cyfarwyddwyr yn ofynnol i sicrhau a chadw'r cyfalaf gofynnol gan y Gymdeithas. Ni sefydlwyd unrhyw weithdrefnau arbenig ar gyfer deiliad nad ydynt yn breswylwyr.

Hawliau pleidleisio

Mae gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd ganddo.

Hawliau i gyfran o elw/gwargedion

Mae gan bob Aelod hawl i elwa o log a ddatgenir mewn elw blynyddol, megis taliadau i'w rhannu'n gyfartal rhwng cyfanswm y Cyfranddaliadau a gyhoeddwyd. Mae hyn yn golygu bod gan Aelod gyda 10,000 o gyfranddaliadau un bleidlais, ond bydd yn derbyn llog ar bob un o'r 10,000 o gyfranddaliadau.

Pan ddaw fferm wynt i ddiwedd ei hoes, gall Aelodau ddewis datod y Gymdeithas, ac felly bydd yr asedau yn cael eu sylweddoli ar elw net yn cael eu gweithredu i ad-dalu cyfalaf Cyfranddaliadau Aelodau. Ni fydd unrhyw warged yn cael ei thalu i Aelodau ond bydd yn cael ei drosglwyddo i gorff arall gyda nodau tebyg fel sy'n ofynnol gan Reolau'r Gymdeithas.

Darpariaethau adbrynu

Gall adbrynu cyfranddaliadau ddigwydd yn unol â'r Rheolau. Nid oes gan Aelodau hawl i dynnu cyfalaf 10,000 o gyfranddaliadau yn ôl, ond mae gan Fwrdd y Gymdeithas y pŵer i ganiatáu i Gyfranddaliadau yn y Gymdeithas gael eu tynnu'n ôl trwy gytundeb rhwng y Bwrdd a'r Aelod.

Sian Rhys Williams, Cynghorydd Tlodi Tanwydd AAT



Cynnig Cyfranddaliadau

Trethiant

Bydd taliadau llog a wneir i Aelodau yn amodol i drethiant yn y Deyrnas Unedig. Disgwylir y bydd taliadau yn cael eu gwneud yn gros ac y bydd buddsoddwyr yn gyfrifol am ddatgan yr incwm hwn ar eu ffurflenni treth.

Darpariaethau ar farwolaeth Aelod

Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, ar farwolaeth Aelod o'r Gymdeithas, gall ei gynrychiolydd personol ymgeisio i dynnu cyfalaf y Cyfranddaliad yn ôl. Bydd dychwelyd cyfalaf Cyfranddaliad dan y ddarpariaeth hon yn flaenoriaeth i'r Bwrdd dros ddychwelyd cyfalaf unrhyw Aelod arall.

Cymhwysedd

Mae'r Cynnig yn agored i unrhyw berson (dros 16 oed) neu sefydliad sy'n bodloni gofynion Aelodaeth.

Trefn ymgeisio

Dylid gwneud cais am unrhyw Gyfranddaliadau yn defnyddio'r Ffurflen Gais yn dilyn y Nodiadau Canllaw. Trwy ddarparu Ffurflen Gais, mae Ymgeisydd yn cynnig tanysgrifio, dan yr Amodau a Thelerau hyn, ar gyfer y nifer o Gyfranddaliadau a nodwyd, neu nifer lai fel y gellir eu dyrannu. Mae Ymgeisydd sy'n derbyn Cyfranddaliadau y cytuno i Aelodaeth awtomatig o Awel Co-op ac i gael ei rwymo gan ei Reolau. Wedi gwneud cais, ni ellir ei dynnu'n ôl. Caniateir ceisiadau lluosog ar yr amod nad ydynt yn achosi i Aelod ddal mwy na'r uchafswm.

Amserlen y Cynnig

Bydd y Cynnig yn ar agor tan 31 Gorffennaf 2017. Ni fydd neb o'r Gymdeithas, ei Chyfarwyddwyr na chynghorwyr yn gyfrifol am golli llog nac unrhyw fudd arall y mae'r Ymgeiswyr yn ddioddef yn ystod y cyfnod pan fydd yr arian yn nwylo'r Gymdeithas.

Gweithdrefn ar dderbyn cais

- ▶ Cyflwynir sieciau/archebion banc Cynnig ar dderbyn a gellir eu gwrthod os nad ydynt yn clirio.
- ▶ Gellir cadw Arian Cais Gwarged wrth aros i sieciau glirio.
- ▶ Gellir gwrthod ceisiadau yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, neu eu graddio i lawr.
- ▶ Bydd arian parthed unrhyw Gais a wrthodir neu sydd wedi ei raddio i lawr yn cael ei ddychwelyd yn ddim hwyrach nag un mis wedi diwedd y Cynnig.
- ▶ Nid oes llog yn daladwy ar Arian Cais a gyflwynwyd y bydd angen ei ddychwelyd.
- ▶ Gellir derbyn Ffurflenni Cais anghyflawn neu anghywir fel pe byddent yn gyflawn a chywir.
- ▶ Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i beidio mynd i ohebiaeth



Melbourne Bartlett, yn pweru ei gadair olwyn trwy ynni adnewyddadwy, gyda chymorth AAT

gydag Ymgeiswyr parthed cyhoeddi tystysgrifau Cyfranddaliadau neu ddychwelyd arian.

- ▶ Bydd canlyniadau'r Cynnig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Prosiect o fewn un mis wedi cau'r Cynnig.
- ▶ Os rhagori ar y tanysgrifiad, bydd y Cyfarwyddwyr, yn ôl eu doethineb, yn pennu dyraniad Cyfranddaliadau. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi cyfranddaliadau uwchlaw'r swm a geisiwyd yn y Cynnig Cyfranddaliadau ar yr amod nad yw hyn yn niweidiol i'r Gymdeithas neu ei Aelodau.

Cynnig Cyfranddaliadau

Gwneud cais am gyfranddaliadau

Cyn llenwi'r Ffurflen Gais, dylech ystyried cymryd cyngor ariannol priodol a chyngor arall. Tynnir eich sylw yn benodol at:

- ▶ Yr adran Ffactorau Risg sy'n disgrifio'r risgiau yn ymwneud â buddsoddiad yng Nghyfranddaliadau'r Cynnig.
- ▶ Telerau ac Amodau'r Cynnig. Trwy lenwi'r Ffurflen Gais, byddwch yn gwneud cynnig na ellir ei dynnu'n ôl, y gall Awel Co-op ei dderbyn.
- ▶ Rheolau Awel Co-op. Wrth brynu Cyfranddaliadau'r Cynnig, byddwch yn dod yn Aelod o'r Gymdeithas ac wedi'ch rhwymo gan y Rheolau.

Swm i'w fuddsoddi

Pris pob cyfranddaliad yw £1. Yr isafswm yw 50. Yr uchafswm yw 100,000. Bydd taliadau llog blynyddol yn seiliedig ar faint o Gyfranddaliadau sydd gennych, ond dim ond un bleidlais fydd gennych, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd gennych.

Dyraniad

Ni fydd y nifer o Gyfranddaliadau Cynnig y byddwch yn ymgeisio amdanynt o reidrwydd y nifer o Gyfranddaliadau y byddwch yn eu derbyn. Os yw'r Cynnig wedi rhagori ar y tanysgrifiad, efallai y bydd eich cais yn cael ei israddio.

Datganiad

Trwy lofnodi'r Ffurflen Gais, rydych yn gwneud cynnig na ellir ei dynnu'n ôl i fynd i gontract gyda'r Gymdeithas. Dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, efallai y bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth foddhaol o'ch hunaniaeth, ac maen amod o'r Cynnig eich bod yn gwneud hyn os gofynnir. Rhaid i breswylwyr nad ydynt o'r Deyrnas Unedig dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau nad oes unrhyw gyfreithiau neu reoliadau yn eu gwlad eu hunain a fyddai'n eu hatal rhag buddsoddi mewn neu dderbyn incwm o Gymdeithas yn y Deyrnas Unedig.

Taliad

Atodwch sic neu archeb banc, o fanc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, ar gyfer yr union swm sydd wedi ei nodi yn y blwch dan 'Swm i'w fuddsoddi'. Gallwch hefyd dalu trwy drosglwyddiad banc.

*Gosod paneli solar PV yn Ysgol Gynradd
Gwaun-cae-Gurwen*



Ffurflen Gais

Pwysig: cyn llenwi'r Ffurflen Gais hon, rhaid i chi:

- ▶ Ddarllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau atodedig
- ▶ Dalu sylw arbennig i'r Ffactorau Risg a nodwyd yn y Ddogfen Gynnig hon
- ▶ Ystyried ble mae angen i chi gymryd cyngor ariannol neu gyngor arall parthed Amodau a Thelerau y Cynnig a gynhwysir yn Nogfen y Cynnig
- ▶ Ddarllen Rheolau Awel Co-op sydd ar gael ar www.awel.coop

DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU AC INC DU A LLENWI DWY DUDALEN Y FFURFLEN GAIS

Swm i'w fuddsoddi

Hoffwn i/fy sefydliad fuddsoddi cyfanswm o £_____ yn Awel Co-op ar sail Amodau a Thelerau'r Ddogfen Gynnig ar bris o £1.00 y Cyfranddaliad. (Ni allwch fuddsoddi llai na £50 a dim mwy na £100,000).

Talu Llog

Os hoffech i'ch taliadau llog blynyddol gael eu talu trwy BACS yn hytrach na siec, rhowch fanylion banc:

Enw ar y Cyfrif

Cod Didoli

Rhif y Cyfrif

Manylion Ymgeisydd Unigol

Teitl (Mr/Mrs/Ms/arall):

Enwau cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn yn y dydd:

E-bost:

Rhowch eich cyfeiriad e-bost os yn bosibl i gadw costau gweinyddu'r Fenter Gydwethredol i isafswm.

Manylion y Sefydliad

Os yw'r Ymgeisydd yn sefydliad, llenwch y manylion cyswllt uchod ac yna'r canlynol hefyd:

Enw sefydliad:

Cyfeiriad y sefydliad:

Math o sefydliad:

Rhif Cofrestrur:

Enw'r sawl sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi'r ffurflen gais hon:

Swydd yr unigolyn awdurdodedig

Ewch ymlaen at a llofnodi'r Datganiad

Datganiad

Rwy'n cadarnhau fy nealltwriaeth:

- ▶ Wedi ei derbyn gan Awel Co-op ma'r Cais hwn yn ffurfio contract sy'n amodol i gyfraith Cymru a Lloegr ar Amodau a Thelerau'r Ddogfen Gynnig.
- ▶ Bydd Ymgeisydd nad yw'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig yn gyfrifol a sicrhau bod y Cais hwn yn cydymffurfio gydag unrhyw gyfreithiau neu reoliadau sy'n berthnasol tu allan i'r Deyrnas Unedig y mae ef/hi yn amodol iddynt.
- ▶ Os rhagorir ar danysgrifiad y Cynnig, ma'n bosibl na fydd Cais a fyddai fel arall yn gymwys yn cael ei dderbyn yn rhannol neu'n llawn
- ▶ Os nad yw'r Cynnig yn codi digon o arian, ni fydd Arian Ceisiadau yn cael ei ddychwelyd a bydd Awel Co-op yn chwilio am gronfeydd cyllid amgen i dalu'r diffyg.

Rwy'n cadarnhau:

- ▶ Rydw i wedi darllen y Ddogfen Gynnig (yn cynnwys y Ffactorau Risg a'r Nodiadau Canllaw i'r Ffurflen Gais hon) a Rheolau Awel Co-op.
- ▶ Rydw i dros 16 oed ac ma'r Ymgeisydd yn bodloni meini prawf cymhwyster y Cynnig.
- ▶ Felly mae Awel Co-op wedi ei awdurdodi i wneud unrhyw ymholiadau y ma'n pennu i fod yn angenrheidiol i gadarnhau cymhwyster y Cais hwn.
- ▶ Nid yw'r Ymgeisydd (oni bai ei fod yn Gymdeithas Gofrestredig) yn gwneud cais neu geisiadau lluosog am fwy na 100,000 o Gyfranddaliadau.
- ▶ Nid yw'r Ymgeisydd yn dibynnu ar unrhyw wybodaeth na sylwadau parthed Cyfranddaliadau'r Cynnig yn Awel Co-op nad yw wedi ei chynnwys yn y Ddogfen Gynnig.
- ▶ Bydd yr Ymgeisydd yn darparu'r holl wybodaeth a dogfennaeth atodol y mae Awel Co-op wedi gofyn amdani parthed y Cais hwn, yn cynnwys parthed gwyngalchu arian, trethiant neu reoliadau eraill.
- ▶ Trwy lofnodi'r Cais hwn ar ran unrhyw unigolyn/sefydliad, rwy'n gwneud hynny gydag awdurdod llwy

Rwy'n deall y bydd y siec yn cefnogi'r cais hwn (os yw wedi ei amgáu) yn cael ei gyflwyno ar gyfer taliad ar dderbyn ac rwy'n gwarantu y bydd yn cael ei dalu ar y cyflwyniad cyntaf.

Llofnod (<i>Ymgeisydd/ar ran sefydliad ymgeisydd fel fo'n berthnasol</i>):	Dyddiad ::
---	-------------------

Taliad

Hoffwn dalu gyda (*ticiwch fel fo'n berthnasol*)

Siec	BACS (trosglwyddiad banc)
Atodwch un siec neu archeb banc ar gyfer y swm a nodir uchod, yn daladwy i Awel Ltd ac wedi'i chroesi a/c Talai.	Talwch trwy BACS i'r cyfrif canlynol Enw'r cyfrif: Awel Ltd Cod didoli: 16 58 10 Rhif cyfrif: 20647522 Defnyddiwch eich enw fel cyfeirnod ar gyfer y trosglwyddiad.

- ▶ Os byddwn angen dychwelyd rhywfaint o'ch arian neu'r cyfan oherwydd rhagori ar danysgrifiad neu ganslo'r prosiect, nodwch a hoffech i ni ddychwelyd hyn trwy siec neu BACS i'ch cyfrif a nodir trosodd

Dychwelwch unrhyw arian trwy siec: BACS:

- ▶ Anfonwch eich Ffurflen Cais wedi ei llenwi a'r taliad at:

Awel Co-op, 76-78 Heol Gwilym, Cwmlllynfell, Abertawe, SA9 2GN, neu llofnodwch, sganiwch ac e-bostiwch ar: info@awelamantawe.co.uk

- ▶ Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni sut daethoch yn ymwybodol o'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn:

Gellir llungopio'r ffurflen gais hon ac mae ffurflenni cais atodol ar gael. Ar gyfer unrhyw ymholiadau, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gefn y Ddogfen Gynnig hon.

Diolch i chi am ystyried ymuno ag Awel Co-op.



Arian Ymgeisio Cyfanswm gros y swm a sylweddolir trwy'r Cynnig hwn.

AAT Elusen Awel Aman Tawe; (Elusen Gofrestredig Rhif 1114492)

Awel Co-op Awel Ltd., 76 - 78 Heol Gwilym, Cwmllynfell, Abertawe, SA9 2GN. (Rhif Cymdeithas Gofrestredig 7204).

Bwrdd Bwrdd Cyfarwyddwyr Cymdeithas Awel.

CO2 Carbon deuocsid, nwy naturiol a allyrrir wrth losgi tanwydd ffosil ac a ystyrir i fod yn brif achos cynhesu byd eang.

Cyfarwyddwyr Cyfarwyddwyr Awel Co-op.

Cyfranddaliadau Awel Co-op Cyfranddaliadau cyfredin o £1 yn Awel Co-op.

FiT (Tariff Cyflenwi) Ysgogiad ar gyfer micro gynhyrchu o hyd at 5MW a gyflwynwyd gan Lywodraeth EM ar 1 Ebrill 2010 dan rymoedd o Ddeddf Ynni 2008.

Ffurflen Cais Y ffurflen yn y Ddogfen Gynnig hon y mae'n rhaid ei llenwi a'i dychwelyd yn unol ag Amodau a Thelerau'r Cynnig hwn a'r Nodiadau Canllaw

kW (kilowat) Uned sy'n mesur pŵer ac yn gyfartal i 1 mil wat.

kWh (kilowat yr awr) Uned sy'n mesur ynni ac sy' gyfartal i'r ynni sy'n gallu darparu pŵer o 1 kW am gyfnod o un awr.

Newid Hinsawdd Y term a ddefnyddir yn gyfredinol i ddisgrifio newid mewn patrymau tywydd o ganlyniad uniongyrchol i gynhesu byd eang, gan gynnwys cynnydd yn yr achosion a dwyster stormydd a sychder.

P50 / P90 Termau a ddefnyddir i fynegi allbwn pŵer a ragwelir ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy a lefel yr hyder yn y ffigur hwnnw.

Priodweddau Amgylcheddol Yn ymwneud â gosodiadau ynni adnewyddadwy, buddion atodol lleihad mewn allyriadau carbon a llygryddion eraill sy'n codi yn ogystal â chynhyrchu trydan ac incwm o hyn.


Ymgeisydd Ymgeisydd am Gyfranddaliadau Cynnig trwy gyflwyno Ffurflen Gais



“Harneisiais i bŵer y gwynt i helpu rhai o'n ceision ar y cae, ac i weld y buddion nawr yn dychwelyd at y gymuned leol o'r adnodd hwn, yn anghredadwy.” **Paul Thorburn, cyn Gaptin tim rygbi Cymru**



“Dyma'r ffordd dylai cynhyrchiad ynni i fod – pentref wrth bentref, cymuned wrth gymuned, gyda'r elw i gyd yn mynd yn ôl i'r bobol. Mae'r cynllun hwn, seiliedig ar egwyddorion cynaliadwy, yn werth cefnogi.” **Gillian Clarke, cyn Bardd Cenedlaethol Cymru**



Llun: Linley Jenkins

Ar gyfer ymholiadau yn gysylltiedig â'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn, cysylltwch â Carl Richards neu Dan McCallum yn Awel Co-op:

☎ 01639 830870 💻 info@awelamantawe.co.uk

📄 Awel, 76-78 Heol Gwilym, Cwmllynfell, Castell-Nedd Port Talbot SA9 2GN

🌐 www.awel.coop

Mae'r Gymdeithas hon wedi ei datblygu mewn cydweithrediad â Shareenergy trwy gefnogaeth gan Renew Wales. Hoffem gydnabod y gefnogaeth a dderbyniom gan gynllun Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, Cronfa ynni Cymunedol Robert Owen a Chronfa Cynhyrchu Cymunedol yr FSE.